Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygu'r trefniadau ar gyfer pennu a monitro amcanion llesiant – Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4635A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 11

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol a ddefnyddiwyd i asesu'r trefniadau 12

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau ar gyfer pennu a monitro amcanion llesiant yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth).

2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf ei chyfraniad at gyrraedd pob un o nodau llesiant cenedlaethol y Ddeddf[1]. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

3 Rydym wedi cynnal ein hadolygiad i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Lle mae amcanion llesiant yr un fath ag amcanion strategol sefydliad, mae ein hadolygiad wedi ystyried yr amcanion strategol trwy ofynion y Ddeddf.

4 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal[2].

5 Wrth ddylunio ein dull, fe wnaethom ystyried beth allem yn rhesymol ei ddisgwyl gan yr Ymddiriedolaeth ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus[3] fod yn gyfarwydd bellach â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a bod yn ceisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn derbyn bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth, yn dal i ddatblygu eu profiad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, roedd yr archwiliad yn cynnwys ystyried sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi ei gwersi ar waith a sut y gall wella yn y dyfodol.

6 Fe gynhaliom ni ein hadolygiad rhwng mis Awst a mis Hydref 2024 ac fe gasglom ni ein tystiolaeth trwy adolygu dogfennau allweddol, arsylwi ar gyfarfodydd a chynnal cyfweliadau gyda swyddogion allweddol o'r Ymddiriedolaeth. Nod yr

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[3] Ar adeg ein gwaith, roedd 48 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

adolygiad oedd ateb y cwestiwn ar y cyfan: ‘A yw’r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei hamcanion llesiant a phenderfynu a ydynt yn dal i fod yn briodol?’. Fe wnaethom hyn trwy archwilio’r cwestiynau canlynol:

- A roddodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i adolygu ei hamcanion llesiant?
- A ystyriwyd gwybodaeth briodol wrth benderfynu i ba raddau y mae amcanion llesiant cyfredol yn dal i fod yn gyson â’r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A oes trefniadau priodol i fonitro cynnydd a gwella sut y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu/pennu amcanion llesiant?

7 Rydym wedi defnyddio set o ddangosyddion cadarnhaol i asesu trefniadau’r Ymddiriedolaeth. Caiff y dangosyddion hyn eu nodi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

8 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ac adolygu ei hamcanion llesiant, gyda hynny’n cael ei danategu gan ymgysylltu sylweddol a chuddwybodaeth gadarn, ond bod cyfle i ddarparu mwy o gysylltiadau rhwng amcanion a dyrannu adnoddau, i wreiddio mapiau trywydd i alluogi gwaith cyflawni, a chryfhau trefniadau monitro ac adrodd ymhellach**.

## Y broses ar gyfer pennu ac adolygu amcanion llesiant

9 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn i bennu ac adolygu ei hamcanion llesiant mewn modd sy’n cydymffurfio â’r Ddeddf a chanllawiau statudol**.

10 Roedd strategaeth hirdymor flaenorol yr Ymddiriedolaeth ‘Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru’ yn cwmpasu’r cyfnod 2018-2030 ac yn nodi saith blaenoriaeth strategol, a oedd hefyd yn gweithredu fel amcanion llesiant blaenorol yr Ymddiriedolaeth:

- dylanwadu ar y penderfynyddion iechyd ehangach;
- gwella llesiant meddyliol a meithrin cydnerthedd;
- hyrwyddo ymddygiadau iach;
- sicrhau dyfodol iach i’r genhedlaeth nesaf trwy ffocws ar y blynyddoedd cynnar;
- diogelu’r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd;
- cefnogi datblygiad system iechyd a gofal gynaliadwy sy’n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar; a
- datblygu gwybodaeth a sgiliau a’u rhoi ar waith i wella iechyd a llesiant ledled Cymru.

11 Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod pandemig COVID-19 wedi amlygu a gwaethygu heriau presennol a mwy newydd o ran iechyd y cyhoedd yn sylweddol. I'r Ymddiriedolaeth, daeth y pandemig â ffocws arbennig ar anghydraddoldebau iechyd, effaith pwysau o ran costau byw, a'r pwysau sylweddol ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaeth hyn ysgogi'r Ymddiriedolaeth i adolygu a diweddaru ei strategaeth hirdymor, gydag ymrwymiad datganedig i ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella tegwch deilliannau iechyd i bobl Cymru.

12 Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth waith i ddatblygu ei strategaeth newydd tuag at ddiwedd 2021 trwy gynnal cyfres o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu gyda'i sefydliadau rhanddeiliaid a'i sefydliadau partner (a drafodir ym **mharagraffau 21 i 23**).

13 Fe fwydodd deilliannau'r ymgysylltu hwn i mewn i waith diweddarach gan yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu a chytuno ar ei strategaeth hirdymor wedi'i diweddaru, gan gynnwys:

- **Hydref 2022:** fe gynhaliodd Tîm Gweithrediaeth Busnes a swyddogaeth Datblygu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth sesiynau i adolygu'r bwriad strategol a oedd yn dod i'r amlwg, a ddilynwyd gan ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, y cyhoedd, a staff;
- **Rhagfyr 2022:** fe gytunodd y Bwrdd ar yr 'Adolygiad o'r Strategaeth Hirdymor – Ein Cynnig Datblygol' a fu'n destun trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid i oleuo datblygiad y strategaeth hirdymor ddrafft;
- **Mawrth 2023:** fe gytunodd y Bwrdd yn ffurfiol ar y strategaeth hirdymor 'Gweithio gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach (2023-2035)' a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-2026; a
- **Mai 2023:** cyhoeddi'r strategaeth hirdymor.

14 Yn unol â chanllawiau ac arfer da[4], mae'r strategaeth hirdymor wedi'i diweddaru'n nodi chwe amcan llesiant sydd hefyd yn gweithredu fel y blaenoriaethau strategol. Yr amcanion hyn yw:

- dylanwadu ar y penderfynyddion iechyd ehangach;
- hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol;
- hyrwyddo ymddygiadau iach;

[4] Mae'r Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn datgan fel a ganlyn: 'Ni ddylai cyrff cyhoeddus drin y gofyniad i osod amcanion llesiant o dan y Ddeddf hon ar wahân i'r amcanion sy'n arwain ac yn llywio camau gweithredu a phenderfyniadau'r sefydliad. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae sefydliadau yn cyfleu eu hamcanion drwy gynllun corfforaethol neu ddogfen gorfforaethol debyg arall. O gofio bod gan bob corff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf drefniadau ar waith i fynegi eu gweledigaeth a'u hamcanion corfforaethol, y ffordd orau y bydd cyrff cyhoeddus yn dangos sut y maent yn cymhwyso'r ddyletswydd llesiant yw drwy ddull corfforaethol integredig sengl.'

- cefnogi datblygiad system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar;
- darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r deilliannau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth; a
- mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd.

15 Mae'r amcanion wedi'u bwriadu i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn yr hirdymor. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi nodi camau gweithredu graddol yn ei Chynlluniau Tymor Canolig Integredig diweddarach, a nifer o strategaethau a chynlluniau galluogol ategol sy'n canolbwyntio ar gamau tymor byr a chanolig i gyflawni'r amcanion. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Iechyd Ryngwladol, y Strategaeth Technoleg Ddigidol a Data, y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso, Strategaeth y Gyllideb, y Strategaeth Pobl a gwaith sydd ar y gweill ar ymgysylltu ac iechyd gwell trwy wyddor ymddygiadol.

16 Mae'r amcanion yn cydnabod yr angen am 'ddull systemau cyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol', dylanwad y penderfynyddion ehangach ar iechyd y cyhoedd, rôl partneriaid a'u blaenoriaethau, a'r angen i ymdrin â blaenoriaethau gweinidogion. Cafodd y cynnig cychwynnol i fabwysiadu pedwar maes blaenoriaeth ei ehangu i gynnwys dwy flaenoriaeth ychwanegol, sef newid hinsawdd a hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol, oherwydd y broses ymgysylltu eang a'r ffocws ar feddwl am systemau cyfan.

17 Ceir pwyslais tanategol cryf ar atal drwy'r chwe amcan hefyd, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â heriau allweddol i iechyd y cyhoedd megis alcohol, gordewdra, diabetes, ysmygu, a chefnogi ffyrdd iach o fyw.

18 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, yn mynd ati'n flynyddol i adolygu a chynllunio'n ffurfiol ar y camau gweithredu a fydd yn sail i gyflawni'r amcanion llesiant, ac sydd wedi'u bwriadu i weithredoli'r amcanion hynny. Unwaith y caiff ei gytuno, mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ddogfen bwysig o ran nodi sut y bydd y strategaeth hirdymor yn cael ei gweithredoli. Fodd bynnag, gall fod yn anodd dod o hyd i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar y wefan, yn enwedig y Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf (2024-27) ac nid yw'n glir i ddefnyddwyr y wefan sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gyflawni ei hamcanion llesiant (**Argymhelliad 1**). Mae gwaith i ddiweddaru'r wefan i fod i ddechrau ym mis Mawrth 2025.

## Gwybodaeth a ystyriwyd wrth benderfynu ar amcanion llesiant

19 Canfuom fod **y broses o ddatblygu'r amcanion llesiant wedi cael ei thanategu gan ymgysylltu sylweddol a chuddwybodaeth gadarn, gyda gwaith cadarnhaol wedi cael ei wneud i ddatblygu mapiau trywydd i drosi'r amcanion eang yn gamau ymarferol. Fodd bynnag, mae wedi cymryd cryn dipyn o amser i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu'r mapiau trywydd hyn, ac mae**

**angen rhagor o waith i ddarparu cysylltiadau mwy eglur rhwng y modd y dyrennir adnoddau a chyflawni'r amcanion**.

20 Bu lefel sylweddol o ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid a chynnwys y rhain trwy gydol y broses o ddatblygu'r amcanion wedi'u diweddaru.

21 Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ebrill 2022, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth sesiynau ymgysylltu un-i-un gydag 20 o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau nas clywir yn aml. Ar yr adeg honno, roedd nifer o randdeiliaid yn dal i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig a'r adferiad ar ei ôl, a oedd yn gwneud cynnal sesiynau grŵp yn anodd. Digwyddodd ymgysylltu pellach rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023 hefyd pan drafodwyd y Cynnig Datblygol gyda rhanddeiliaid gan gael eu sylwadau arno cyn i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gytuno ar y strategaeth hirdymor derfynol.

22 Fe ategwyd y gwaith gan arolygon a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022, ac eto ym mis Ionawr 2023. Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022, fe ymatebodd 3,521 o bobl i arolwg 'Sut ydyn ni'n gwneud yng Nghymru' yr Ymddiriedolaeth, sy'n holi cyfranogwyr am faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Ym mis Ionawr 2023, fe arolygodd yr Ymddiriedolaeth 1,072 o bobl ychwanegol a recriwtiwyd trwy ei 'Phanel Amser Siarad Iechyd Cyhoeddus'. Panel cenedlaethol gynrychioliadol[5] sy'n cynnwys trigolion yng Nghymru yw hwn, a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolaeth i alluogi ymgysylltu rheolaidd â'r cyhoedd i oleuo polisi ac arfer ym maes iechyd y cyhoedd. Hefyd, cafodd yr Ymddiriedolaeth adborth gan 480 o'i staff trwy weithdai ac arolwg.

23 Wrth adolygu ei hamcanion llesiant, defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth ddata wedi'i ddiweddaru o ystod o ffynonellau hefyd, gan gynnwys:

- cronfeydd data cuddwybodaeth iechyd yr Ymddiriedolaeth ei hun, gan gynnwys Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd, Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, ochr yn ochr â data epidemiolegol cyhoeddedig arall sy'n ymwneud ag anghenion iechyd y presennol a'r dyfodol yng Nghymru;
- deunydd a oedd yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar iechyd a chymdeithas, gan gynnwys adroddiadau beunyddiol yn ystod y pandemig;
- ymchwil a gwybodaeth am effaith newid hinsawdd;
- cynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a gynhwysir yn Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolaeth;
- amcanion llesiant presennol yr Ymddiriedolaeth, yr achos dros newid, a'r rhesymeg dros yr amcanion a blaenoriaethau arfaethedig newydd yn ei Chynnig Datblygol; a hefyd
- crynodeb o ddata a gwybodaeth sy'n gefndir i'r amcanion newydd a gynhwyswyd yn y Cynnig Datblygol a'r strategaeth hirdymor.

[5] Mae'r panel wedi'i fwriadu i gynrychioli poblogaeth Cymru'n fras yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i'w hamcanion llesiant gael eu tanategu gan gynlluniau a chamau gweithredu tymor byr a chanolig. Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn nodi camau gweithredu tymor byr a chanolig i fwrw ymlaen â'r amcanion, gan gyfeirio at y strategaethau galluogol lle y bo'n berthnasol, wedi'u rhannu fesul chwarter dros dair blynedd. Cafodd mapiau trywydd drafft, sy'n amcanu at gysylltu'r amcanion eang â chamau cyflawni mwy ymarferol, eu hystyried yn un o sesiynau Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r mapiau trywydd hyn wedi cael eu datblygu gan ymgysylltu'n sylweddol â staff a byddant yn goleuo ac yn ategu'r broses o gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28. Maent yn darparu llawer mwy o fanylion am gamau gweithredu ymarferol sy'n sail i'r camau gweithredu sydd i'w cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, er bod datblygu'r mapiau trywydd hyn yn beth cadarnhaol, mae'n dal yn wir bod hynny wedi digwydd ryw ddwy flynedd ar ôl cytuno ar y strategaeth hirdymor.

25 Mae cyflawni llawer o amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar weithio gydag ystod o randdeiliaid eraill. Bydd gan y rhanddeiliaid hynny hefyd eu blaenoriaethau a'u hamcanion eu hunain i'w cyflawni a fydd hefyd yn ddeinamig ac yn newid. Rydym yn cydnabod nad yw lefel a graddfa'r ymgysylltu ar gyfer y strategaeth hirdymor yn broses flynyddol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod blaenoriaethau a chapasiti partneriaid yn cael eu hystyried fel rhan o'u prosesau ymgysylltu parhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i gryfhau ei dull ymgysylltu.

26 Fel a nodir yn y canllawiau statudol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus egluro sut y byddant yn sicrhau bod adnoddau, gan gynnwys rhai ariannol, yn cael eu dyrannu'n flynyddol at ddiben cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymo i sicrhau bod 'adnoddau'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol', ac mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu tanategu'n rheolaidd gan gynllun ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi neilltuo staff a chyllid i ddatblygu'r strategaeth a datblygu'r Tîm Iechyd a Llesiant i roi cymorth i gyflawni'r amcanion llesiant. Hefyd, gall yr Ymddiriedolaeth adnabod yr adnoddau a fuddsoddwyd mewn nifer o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli ac yn cael eu hariannu, megis y rhaglen rhoi'r gorau i ysmygu, a phrosiectau a ariennir trwy'r strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach'. Serch hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ganddi ragor o waith i'w wneud i ystyried y gofynion o ran adnoddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion llesiant dros y tymor canolig (**Argymhelliad 2**).

## Trefniadau i fonitro cynnydd

27 Canfuom **er bod trefniadau monitro ac adrodd yn eu lle, gyda chamau gweithredu eisoes ar y gweill i gryfhau ymhellach y modd yr adroddir ar berfformiad, y gellid gwneud mwy i ddarparu mwy o dryloywder a dangos effaith**.

28 Adroddwyd ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion llesiant yn Natganiad Llesiant yr Ymddiriedolaeth (2023) a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24. Cafodd y rhain eu hystyried a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf 2023 a mis Gorffennaf 2024 yn y drefn honno a'u cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Maent yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn adrodd ar gynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth a thrwy gydweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos.

29 Fodd bynnag, nid yw'n hawdd deall yn glir pa gynnydd a wnaed i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig penodol i gyflawni'r amcanion llesiant a nodir mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig o'r dull adrodd mwy cyffredinol sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn effeithio ar eglurder a thryloywder adroddiadau blynyddol (**Argymhelliad 3**).

30 I fesur effaith yr amcanion llesiant, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau ar berfformiad yn ei gyfarfodydd Bwrdd bob deufis. Ers cyfarfod mis Gorffennaf 2023, mae'r rhain wedi cynnwys sgoriau CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) yn ôl canran y camau gweithredu a gwblhawyd yn erbyn y cerrig milltir a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ers mis Tachwedd 2023, caiff y modd yr adroddir ar gerrig milltir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ei grwpio dan y chwe amcan llesiant, ynghyd â grŵp ychwanegol sy'n canolbwyntio ar y ffactorau galluogi y mae eu hangen i gyflawni strategaeth yr Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus.

31 Ers mis Medi 2024, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn cael Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad wedi'i ddiweddaru gan gynnwys gwybodaeth fonitro fwy manwl sy'n ymwneud â'r amcanion unigol. Clywodd y Bwrdd fod yr adroddiad wedi'i ddiweddaru wedi'i fwriadu fel cam cychwynnol i wella'r broses adrodd, gyda gwaith pellach i'w wneud i asesu sut y gellid gwella gwybodaeth fonitro yr adroddir arni wrth y Bwrdd. Y bwriad yw bod â phroses adrodd reolaidd sy'n cysylltu'r amcanion llesiant yn fwy uniongyrchol â cherrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig a mapiau trywydd.

32 Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 tra'i bod yn disgwyl am ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod cyflawni'r strategaeth a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn galw am gydweithio agos a pharhaus gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i gyflawni deilliannau ar lefel systemau ac mae'n ymrwymedig i ymgysylltu a chydweithio parhaus.

33 Mae'r amcan llesiant 'cefnogi datblygiad system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar' yn canolbwyntio ar atal, ac ymyrryd yn gynnar. Mae hon yn her sy'n fwy newydd ac yn tyfu, yn enwedig mewn perthynas â chlefydau cronig fel diabetes. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod hwn yn faes allweddol ar gyfer mwy o ymdrech a ffocws.

34 Er na chanfuom unrhyw dystiolaeth o ddysgu systematig neu ddysgu penodol ar ôl y prosiect o ran y broses ar gyfer pennu'r amcanion llesiant, roedd tystiolaeth eglur

o ddull dysgu ailadroddus ac ystwyth, a oedd yn ymateb i ddeilliannau ymgynghori ac ymgysylltu.

# Argymhellion

35 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar argymhellion sy'n codi o'n gwaith. Caiff ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Tryloywder cynlluniau**<br>A1 I wella tryloywder camau gweithredu i roi cymorth i gyflawni ei hamcanion llesiant, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y wefan yn eglur o ran sut y mae'n gweithredu i gyflawni ei hamcanion llesiant, gan gynnwys gwneud ei Chynllun Tymor Canolig Integredig cyfredol yn hygyrch ar ei gwefan **(Paragraff 18)**. |
| **Darparu adnoddau ar gyfer amcanion**<br>A2 I oleuo datblygiad Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol, dylai'r Ymddiriedolaeth egluro sut y mae'n ystyried y gofynion o ran darparu adnoddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion llesiant dros y tymor canolig **(Paragraff 26)**. |
| **Tryloywder ac eglurder adroddiadau**<br>A3 Wrth adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion llesiant yn yr Adroddiad Blynyddol, dylai'r Ymddiriedolaeth wneud y cysylltiadau'n fwy eglur rhwng yr amcanion unigol a'r cerrig milltir a'r camau gweithredu yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (**Paragraff 29)**. |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol a ddefnyddiwyd i asesu’r trefniadau

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ yr ydym wedi’u defnyddio i asesu trefniadau yn yr Ymddiriedolaeth. Nid rhestr wirio mo hon, ond yn hytrach set enghreifftiol o nodweddion sy’n disgrifio sut allai da edrych.

**Arddangosyn 2: dangosyddion cadarnhaol**

| | | Dangosyddion cadarnhaol |
|---|---|---|
| **A yw’r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei hamcanion llesiant a phenderfynu a ydynt yn dal i fod yn briodol?** | | |
| A oes trefniadau priodol yn eu lle i adolygu’r amcanion llesiant a’r rheiny wedi’u tanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy? | A yw’r Ymddiriedolaeth wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang? | • Mae’r amcanion llesiant wedi’u bwriadu i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a chyfrannu ar draws y nodau llesiant cenedlaethol.<br>• Mae’r amcanion llesiant wedi’u bwriadu i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig am sut y mae’r amcanion llesiant yn effeithio ar/yn berthnasol i’r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |
| | A yw’r Ymddiriedolaeth wedi dylunio’r amcanion i gyflawni manteision tymor hwy, gan daro cydbwysedd | • Mae’r Ymddiriedolaeth wedi pennu amcanion sy’n ddigon uchelgeisiol ac a ddyluniwyd i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Mae’r amcanion wedi’u bwriadu i ddiwallu anghenion byrdymor a thymor hwy. Lle pennwyd amcanion dros ffrâm amser fer neu ganolig, fe’u pennwyd yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |

| | | Dangosyddion cadarnhaol |
|---|---|---|
| | â diwallu anghenion byrdymor? | |
| A roddir ystyriaeth i wybodaeth briodol wrth benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant cyfredol yn dal i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy? | A yw'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio data a chuddwybodaeth arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser? | • Mae gan yr Ymddiriedolaeth asesiad eglur a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i oleuo dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth am yr angen 'fel y mae'/byrdymor.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda am angen, risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol. Mae hon yn debygol o ddod o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Cudd-wybodaeth iechyd a data epidemiolegol ar lefel y DU gyfan, genedlaethol, ranbarthol a lleol;<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asesiadau o'r boblogaeth gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol;<br>– canlyniadau ymarferion cynnwys/ymgynghori cenedlaethol a lleol;<br>– adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol;<br>– Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru ac Asesiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru; a<br>– data ac ymchwil ar effaith newid hinsawdd.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n parhau o un genhedlaeth i'r llall trwy ei hamcanion llesiant. |
| | A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei hamcanion llesiant? | • Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i helpu i ddethol ei hamcanion llesiant. Mae'r gweithgarwch cynnwys hwnnw – boed yn gynradd, yn eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae gweithgarwch cynnwys yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |

| | | Dangosyddion cadarnhaol |
|---|---|---|
| | A yw'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant? | • Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a chanolig, ond mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ystyried adnoddau a risgiau tymor hwy a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dyrannu adnoddau i gyflawni manteision ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei hamcanion llesiant. |
| | A yw'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion? | • Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ei gwybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei pherthnasoedd a threfniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall wireddu uchelgeisiau trawsbynciol. |
| A oes trefniadau priodol yn eu lle i fonitro cynnydd a gwella sut y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu/ pennu amcanion llesiant? | A yw'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol? | • Mae mesurau perfformiad wedi'u bwriadu i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n croesi ffiniau adrannol/sefydliadol ac sy'n dwyn manteision lluosog (gan gynnwys rhai ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Ceir 'edefyn aur' a fydd yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i adrodd mewn modd eglur a thryloyw ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion. |
| | A yw'r Ymddiriedolaeth yn ceisio dysgu o'r modd a gwella'r modd y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy | • Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon sy'n cael effaith fawr.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dysgu o bennu amcanion llesiant blaenorol ac o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei hamcanion llesiant newydd. |

| | | Dangosyddion cadarnhaol |
|---|---|---|
| | wrth bennu ei hamcanion llesiant? | • Mae'r Ymddiriedolaeth wedi neu'n bwriadu myfyrio ynghylch sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch nesaf o ran pennu amcanion llesiant. |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Tryloywder cynlluniau**<br>A1 I wella tryloywder camau gweithredu i roi cymorth i gyflawni ei hamcanion llesiant, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y wefan yn eglur o ran sut y mae'n gweithredu i gyflawni ei hamcanion llesiant, gan gynnwys gwneud ei Chynllun Tymor Canolig Integredig cyfredol yn hygyrch ar ei gwefan **(Paragraff 18)**. | Y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y cyfeirir ato hefyd fel ein Cynllun Strategol, yw'r unig ffordd yr ydym yn cyfleu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud gyda'n hamcanion llesiant ac, ar y cyfan, fe'i hysgrifennir i ateb gofynion cynllunio a nodir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gan nodi y gellid gwneud y ddogfen ei hun yn haws dod o hyd iddi, byddwn yn ymrwymo i:<br>• ddiwygio'r meta tagiau ar y ddogfen fel y bydd hi'n haws chwilio amdani ar ein gwefan; a<br>• diweddaru teitl y ddolen ar y wefan i'n Cynllun Strategol i ddynodi mai ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yw hwn. | 28 Chwefror 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Darparu adnoddau ar gyfer amcanion**<br>A2 I oleuo datblygiad Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol, dylai'r Ymddiriedolaeth egluro sut y mae'n ystyried y gofynion o ran darparu adnoddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion llesiant dros y tymor canolig (**Paragraff 26**). | Rydym yn ystyried y gofynion o ran darparu adnoddau a'r risgiau fel rhan o'n dull cynllunio integredig o ddatblygu ein Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a byddwn yn parhau i fireinio a chryfhau ein dull cynllunio. Hefyd, caiff Risgiau Strategol eu haseinio i arweinydd Gweithredol i adolygu cynlluniau gweithredu cysylltiedig a darparu diweddariadau sicrwydd ar gyfer y Tîm Gweithredol, y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd.<br>Nid oes cynlluniau gennym i symud awdurdod dirprwyedig nac ailstrwythuro i gysoni â blaenoriaethau; fodd bynnag, byddwn yn ystyried ymarfer blynyddol i fapio adnoddau ariannol yn erbyn ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol. | 31 Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| **Tryloywder ac eglurder adroddiadau**<br>A3 Wrth adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion llesiant yn yr Adroddiad Blynyddol, dylai'r Ymddiriedolaeth wneud y cysylltiadau'n fwy eglur rhwng yr amcanion unigol a'r cerrig milltir a'r camau gweithredu yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (**Paragraff 29**). | Fel a amlygwyd o fis Medi 2024, roedd ein hadroddiad ar berfformiad yn cynnwys diweddariadau ar gerrig milltir sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn ôl blaenoriaeth strategol (amcan llesiant). Mae bellach yn cael ei ddiweddaru a'i gyflwyno'n fisol yn ein hadroddiad ar berfformiad. Byddwn yn defnyddio ein hadroddiad ar berfformiad ym Mis 12 i adrodd ar gynnydd yn yr adran ar berfformiad yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024-25. | 30 Mehefin 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.